
Cafcass Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Cafcass Cymru

# Cynllun Strategol

2020-2025



# Ein Diben

**“Rydym yn cynrychioli dymuniadau, teimladau a budd gorau plant a phobl ifanc sy’n ymwneud ag achosion llys teulu yng Nghymru, gan ddarparu cyngor gwaith cymdeithasol annibynnol sy’n diogelu ac yn hybu eu lles.”**

## Ein strategaeth

Datblygwyd y strategaeth hon gyda’n staff ac ar eu cyfer. Bydd yn rhoi cyfeiriad a phwyslais i’r hyn yr ydym yn ei wneud a sut yr ydym yn ei wneud ac yn sicrhau bod ein rhan ym mywydau plant a theuluoedd yn parhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Wrth ddatblygu ein strategaeth ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, rydym wedi gweithio’n agos gyda staff, rhanddeiliaid a’r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol. Wrth wneud hynny, rydym yn angerddol yn dymuno i’r cynllun strategol hwn fod â gwir ystyr i bawb sy’n gysylltiedig â Cafcass Cymru, cynllun y gall pob un ohonom ei ddefnyddio wrth inni ymdrechu i ddarparu’r gwasanaethau gorau posibl i’r plant a’r teuluoedd sy’n ymwneud â’r system cyfiawnder teuluol yng Nghymru.

Wrth ddatblygu ein strategaeth, mae egwyddorion canolog Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015[1] wedi dylanwadu’n gryf arnom o ran ystyried y tymor hir, gweithio’n well gyda phobl, cymunedau a’n gilydd, ceisio atal problemau a gweithredu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Mae mwy o fanylion am hyn ar gael yn Atodiad 1 ar ddiwedd y ddogfen.

Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi yn y strategaeth hon a’i gwireddu. Ein huchelgais fel sefydliad yw darparu gwasanaethau i blant a theuluoedd a gaiff eu cydnabod yn eang yn rhai o safon gyson uchel, sy’n effeithiol, yn hygyrch, yn sensitif i’w hanghenion ac sy’n darparu canlyniadau sy’n gwella yn fesuradwy.

Rydym yn parhau i gyfrannu at ddatblygu’r systemau cyfiawnder teuluol a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac rydym yn ceisio bod yn arloesol ac yn fyfyriol wrth i ni wella’n barhaus.

## CCUHP


Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hwliau’r Plentyn ac mae Cafcass Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo hawliau plant o fewn y system cyfiawnder teuluol. CCUHP yw sail ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc wrth i ni sicrhau bod y plentyn yng nghanol yr holl yr ydym yn ei wneud ar lefel sefydliad a lefel achos. Yn unol â’r ymrwymiad hwn, mae’r cynllun strategol hwn yn sicrhau bod plant a’u hawliau wrth wraidd yr hyn a wnawn. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am hyn yn Atodiad 2.

## Iaith Gymraeg

Yn 2010, cyflwynwyd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i ddiweddaru’r fframwaith cyfreithiol ar y defnydd o’r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae’r safonau a gyflwynir gan y Mesur yn gosod dyletswyddau ar Cafcass Cymru mewn perthynas â’r Gymraeg ac yn cwmpasu Darparu Gwasanaethau, Llunio Polisi, Gweithredu, Hyrwyddo a Chadw Cofnodion. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth a sicrhau bod gan ein staff y sgiliau a’r gefnogaeth i weithio gyda’r plant, teuluoedd a rhanddeiliaid.

## Partneriaethau Cymdeithasol

Mae Cafcass Cymru yn adnabod y pwysigrwydd o wiethio gydag Undebau Llafur o fewn Partneriaeth Cymdeithasol i ddatblygu a chefnogi ei weithlu i ddarparu’r gwasanaeth gorau bosibl i blant, teuluoedd a’r llys teulu. Byddwn yn parhau i ddatblygu perthynas flaengar gydag Undebau Llafur, gan gyfarfod â hwy’n rheolaidd a cheisio eu mewnbwn pwysig i’r broses o ddatblygu ein gwasanaethau a lles staff.



[1] www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh

OGL ISBN digidol 978-1-80038-501-6 © Hawlfraint y Goron 2020 WG39562

# Pwy ydym ni a beth yr ydym yn ei wneud

**Rydym yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi plant a theuluoedd mewn achosion llysoedd teulu. Rydym yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan y galw ac mae pob achos yn cael ei gyfeirio atom gan lys. Rydym yn cynghori'r llysoedd ar y camau gweithredu gorau o ran yr hyn yr ydym yn ei ystyried i fod er budd gorau plant unigol. Mae lles plentyn yn y dyfodol bob amser wrth wraidd pob argymhelliad a wneir a phob cam a gymerir gan Cafcass Cymru. Ein diben yw diogelu'r plentyn a sicrhau bod ei lais yn cael ei glywed yn y system cyfiawnder teuluol.**

# Ein Gwerthoedd

**Mae'n bwysig i ni fod gan ein staff, defnyddwyr gwasanaethau, partneriaid a rhanddeiliaid hyder yn y ffordd yr ydym yn gweithio.**

Wrth ddatblygu'r cynllun 5 mlynedd hwn, fe wnaethom ymgysylltu ac ymgynghori â'n staff i ddatblygu gwerthoedd craidd ar gyfer y sefydliad h.y. sy'n llywio ac yn adlewyrchu sut yr ydym yn ymddwyn tuag at ein gilydd a'r rhai yr ydym yn gweithio â nhw. Mae'r gwerthoedd hyn yn sail i'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ac rydym yn disgwyl i'n holl staff eu croesawu a'u hyrwyddo ym mhopeth a wnawn.

### Canolbwyntio ar Blant

Mae plant a phobl ifanc wrth wraidd ein holl waith.

### Cynhwysol

Rydym yn parchu gwahaniaeth, yn herio gwahaniaethu, yn hybu cynhwysiant ac yn croesawu amrywiaeth.

### Uniondeb a Pharch

Rydym yn gweithio mewn ffordd deg, onest, a thryloyw gyda phawb, gan werthfawrogi a pharchu eu hunigoliaeth.



# Ein nodau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf

**Fel sefydliad sy'n dysgu, rydym wedi ymrwymo'n daer i barhau i fuddsoddi yn ein staff er mwyn cynnal lefelau cyson o ansawdd, datblygu ein gwasanaethau, arloesi a gwella'n barhaus mewn ymateb i heriau yn y dyfodol.**

Rydym hefyd yn mynd ati i weithio ar y cyd gyda'n partneriaid yn rhan o'n datblygiad a'n gwelliant ein hunain ond hefyd i ddylanwadu ar y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a'i gwella.

Mae ein strategaeth yn cynnwys 3 nod cyffredinol sy'n disgrifio sut y byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gyflawni ein diben. Mae'r nodau hyn yn canolbwyntio ar **Ein Gwasanaeth**, **Ein Staff** a'n **Rhanddeiliaid**.

### Ein gwasanaeth

**Rydym eisiau darparu gwasanaeth o'r ansawdd gorau i gefnogi gwell canlyniadau i bob plentyn, person ifanc a theulu yr ydym yn gweithio â nhw.**

### Ein staff

**Rydym eisiau amgylchedd a diwylliant dysgu lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u lles yn cael ei gefnogi.**

### Ein Rhanddeiliaid


**Rydym eisiau rhannu ein gwybodaeth, dysgu gan bartneriaid a defnyddio ein dylanwad ar y cyd i wella'r system cyfiawnder teuluol a gofal cymdeithasol plant yng Nghymru.**

# Sut rydym yn bwriadu cyflawni ein nodau?

**Er bod y cynllun yn uchelgeisiol, rydym wedi creu camau gweithredu manwl a fydd yn rhoi pwyslais a chyfeiriad i sicrhau ein bod yn cyflawni ein nodau yn ystod y pum mlynedd nesaf.**

Caiff cynnydd o'i gymharu â'r cynllun hwn ei adolygu a'i gyhoeddi yn ein hadolygiadau blynyddol. Bydd yr adolygiadau hyn yn gyfle i ystyried ein cynnydd yn ystod y flwyddyn flaenorol o'i gymharu â'r camau gweithredu a nodwyd. Yn flynyddol, byddwn yn adolygu'r cynllun strategol a'i gamau gweithredu manwl er mwyn inni allu parhau i fod yn ffyddiog bod y strategaeth yn dal i ganolbwyntio ar yr heriau yr ydym yn eu hwynebu. Yna, gellir gwneud unrhyw addasiadau i sicrhau ein bod yn parhau i wneud y pethau cywir wrth roi llais i blant sy'n ymwneud â llysoedd teulu.

# Ein gwasanaeth



## Rydym eisiau darparu gwasanaeth o'r ansawdd gorau i gefnogi canlyniadau gwell i bob plentyn, person ifanc a theulu yr ydym yn gweithio â nhw.

| Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni | Sut y byddwn yn cyflawni hyn dros y 5 mlynedd nesaf: |
|---|---|
| **Darparu dadansoddiad o safon uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac argymhellion sydd wedi'u cynllunio ar gyfer anghenion ac amgylchiadau pob plentyn a pherson ifanc.** | • Parhau i wella cysondeb ac ansawdd ein gwaith.<br>• Ymgorffori diwylliant o ddefnyddio a chyfeirio at ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio ein gwaith.<br>• Adolygu, datblygu a chodi ymwybyddiaeth o'n dulliau ymarfer. |
| **Gwrando yn gyson ar lais y plentyn a'i hyrwyddo ym mhopeth yr ydym yn ei wneud.** | • Sicrhau bod tystiolaeth o lais ac anghenion unigol plant a phobl ifanc i'w gweld ym mhob agwedd ar ein gwaith.<br>• Drwy ddefnyddio gwaith uniongyrchol, i ymgysylltu â phob plentyn yn unigol i ddeall ei anghenion a'i amgylchiadau unigryw.<br>• Parhau i weithio gydag aelodau o Fwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol, i wella a datblygu ein gwasanaethau.<br>• Archwilio ffyrdd gwahanol o gyfathrebu â phlant a phobl ifanc. |
| **Deall a dangos y gwahaniaeth y mae ein gwasanaeth yn ei wneud i blant, pobl ifanc a theuluoedd.** | • Datblygu fframwaith gwybodaeth reoli sy'n seiliedig ar ganlyniadau.<br>• Comisiynu adroddiadau archwilio thematig, i nodi dysgu a gwerth ychwanegol ein gwaith.<br>• Datblygu ymhellach y ffordd yr ydym yn cipio adborth, yn dysgu ohono ac yn gweithredu arno. |
| **Gwella ein gwasanaeth yn barhaus drwy archwilio ffyrdd newydd o weithio.** | • Datblygu strategaeth ddigidol i hyrwyddo'r gwaith o foderneiddio ein systemau, ein harferion, ein dulliau cyfathrebu a'n cysylltedd er mwyn sicrhau y gallwn weithio yn y ffyrdd gorau posibl.<br>• Creu cynllun gwella sefydliadol unedig sy'n cydlynu datblygiadau gwasanaeth yn y dyfodol.<br>• Sicrhau ein bod yn alinio ein hadnoddau i ganiatáu i ni addasu ac ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth, polisi a galw.<br>• Parhau i fuddsoddi yn hyfforddiant ein staff er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r dechnoleg sydd ar gael iddynt i wella ein gwasanaeth. |


# Ein staff



## Rydym eisiau amgylchedd a diwylliant dysgu lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu lles yn cael ei gefnogi.

| Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni | Sut y byddwn yn cyflawni hyn dros y 5 mlynedd nesaf: |
|---|---|
| **Hybu iechyd a lles yr holl staff, er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith wrth gynnal gwasanaeth effeithlon ac effeithiol.** | • Cryfhau cyfleoedd lles ein staff a chodi ymwybyddiaeth o'r adnoddau sydd ar gael.<br>• Defnyddio technoleg i gynnwys ffyrdd modern a hyblyg o weithio.<br>• Dysgu gan ein partneriaid a'n cydweithwyr ynghylch y modd gorau o hybu ein hiechyd a'n lles. |
| **Buddsoddi mewn dysgu parhaus, gan helpu i ysbrydoli ac ysgogi staff i ddatblygu yn eu swyddi.** | • Ehangu ein cyfleoedd Dysgu a Datblygu i ddiwallu anghenion yr holl staff.<br>• Creu cyfleoedd i ddefnyddio a rhannu'r amrywiaeth eang o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ledled Cafcass Cymru a Llywodraeth Cymru yn ehangach.<br>• Cryfhau'r fframwaith sicrhau ansawdd, dysgu a gwella (QALI) i gefnogi dysgu a datblygu sefydliadol. |
| **Recriwtio, cadw a buddsoddi mewn gweithlu hyfedr, brwdfrydig ac amrywiol.** | • Parhau i adolygu a datblygu strategaeth y gweithlu er mwyn sicrhau ein bod yn denu ac yn cadw'r bobl orau.<br>• Archwilio sut rydym yn denu gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth dinasyddion Cymru yn fwy cywir.<br>• Codi ymwybyddiaeth staff ac annog pobl i ymwneud â Rhwydweithiau Amrywiaeth Llywodraeth Cymru. |

# Ein rhanddeiliaid



**Rydym eisiau rhannu ein gwybodaeth, dysgu gan bartneriaid a defnyddio ein dylanwad ar y cyd i wella'r system cyfiawnder teuluol a gofal cymdeithasol plant yng Nghymru.**

| Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni | Sut y byddwn yn cyflawni hyn dros y 5 mlynedd nesaf: |
|---|---|
| **Gwella a chryfhau ein cysylltiadau â rhanddeiliaid.** | • Parhau i gryfhau ein cysylltiadau â'n rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol, Y Farnwriaeth, Gwasanaeth Tribiwnlys Llys Ei Mawrhydi a'n Pwyllgor Ymgynghorol.<br>• Cryfhau ein swyddogaeth i'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol, Cyngor Cyfiawnder Teuluol, Rhwydwaith Teuluol a Byrddau Cyfiawnder Teuluol lleol.<br>• Parhau i eirioli dros Gymru o fewn y system cyfiawnder teuluol.<br>• Datblygu ac ymestyn ein cysylltiadau ag adrannau Llywodraeth Cymru a'n dylanwad arnynt. |
| **Parhau i wella ein systemau ar gyfer cipio, adrodd a dadansoddi gwybodaeth.** | • Gwella dealltwriaeth y staff a'i sgiliau wrth gofnodi gwybodaeth yn gyson ac yn gywir.<br>• Creu strategaeth data sy'n nodi disgwyliadau'r sefydliad ynghylch sut yr ydym yn casglu, rheoli a rhannu data.<br>• Datblygu fframwaith gwybodaeth reoli sydd yn seiliedig ar ganlyniadau.<br>• Datblygu ein system rheoli achosion (IRIS) yn barhaus, er mwyn llywio a gwella ansawdd ein gwasanaeth. |
| **Chwarae rhan arweiniol drwy rannu ein gwybodaeth a'n deallusrwydd yn briodol gyda rhanddeiliaid er mwyn cefnogi gwelliannau yn y system cyfiawnder teuluol a gofal cymdeithasol.** | • Parhau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a rheoliadau llywodraethu mewnol o ran rhannu data yn briodol.<br>• Parhau i weithio gyda Nuffield Family Justice Observatory a Cafcass Lloegr, i gryfhau ymchwil ar faterion a chanlyniadau cyfiawnder teuluol drwy wella'r gallu i fynd at ein data, ein dadansoddiadau a'r hyn yr ydym yn ei ddeall o'n hymarfer.<br>• Nodi cyfleoedd i gydweithio â rhanddeiliaid i gomisiynu a llywio gwaith ymchwil.<br>• Dylanwadu ar randdeiliaid a'u hannog i gyfrannu at fentrau rhannu data. |

# Atodiad 1

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i ni feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'n gilydd, i geisio atal problemau a defnyddio dull gweithredu fwy cydgysylltiedig.

Mae strategaeth Cafcass Cymru 2020-25 yn nodi sut y byddwn yn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf o ran ystyried y tymor hir, cydweithio a gweithio'n well gydag eraill, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, i atal problemau ac i weithredu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig yn ein gwaith.

Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru yr ydym ni i gyd eisiau byw ynddi, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau ein bod ni i gyd yn gweithio tuag at gyflawni'r un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang.

**Mae'r tabl canlynol yn nodi sut y byddwn yn defnyddio'r 5 ffordd o weithio, a amlinellir yn y Ddeddf, i weithio gyda staff, defnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid a phartneriaid a chyfrannu at y Nodau Llesiant.**

| | |
|---|---|
| **Tymor hir** | Cydbwyso anghenion tymor byr o fewn oes achos, â chanlyniadau mwy hirdymor a'u heffaith ar y plant a'u teuluoedd. |
| **Atal** | Gweithredu i atal problemau yn ein gwaith gyda phlant a theuluoedd drwy wella ein gwasanaethau a'n staff yn barhaus er mwyn diwallu anghenion newidiol ein defnyddwyr gwasanaeth. |
| **Integreddio** | Hyrwyddo integreiddio ledled gwasanaethau drwy ddeall yr hyn y mae gwahanol sefydliadau rhanddeiliaid yn ei wneud i ymdrin ag anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth, gan eu gwahodd i gyfrannu at ein sylfaen wybodaeth, a rhoi adborth ynghylch ein cyfraniad ni. |
| **Cydweithredu** | Cydweithredu â defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol eraill ledled sefydliadau i ddod â syniadau a gwybodaeth i'n helpu i ddatblygu ein gwasanaeth. |
| **Cynnwys** | Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth ddatblygu ein gwasanaeth drwy roi gwybodaeth i ni ynghylch yr hyn y mae angen i ni wybod mwy amdano er mwyn cynnal gwasanaeth effeithiol. |

# Atodiad 2

Cytundeb rhyngwladol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) sy'n nodi hawliau plant. Y sail resymegol ar gyfer y CCUHP yw bod angen rhoi ystyriaeth benodol i hawliau plant oherwydd y gofal arbennig a'r amddiffyniad sydd eu hangen yn aml ar blant a phobl ifanc.

Mae'r CCUHP yn rhestr o hawliau sydd gan bob plentyn a pherson ifanc yn y byd. Mae gan blant a phobl ifanc 18 oed ac iau yr hawl i fod yn ddiogel, i chwarae, i gael addysg, i fod yn iach ac i fod yn hapus.

Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y ffordd o hybu hawliau plant ac yn 2004, mabwysiadwyd y CCUHP yn ffurfiol fel sail i'w gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r strategaeth hon, yn unol â'r ymrwymiad hwn, yn cydnabod bod y CCUHP yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

**Mae gwaith Cafcass yn ystyried llawer o agweddau ar y CCUHP, yn benodol:**

**Erthyg 3 –** Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

**Erthyg 9 –** Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni oni bai bod hynny er eu lles eu hunain. Mae gan blant y mae eu rhieni wedi gwahanu yr hawl i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant.

**Erthyg 12 –** Mae gan blant yr hawl i fynegi eu barn ynghylch yr hyn a ddylai digwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a bod eu barn yn cael eu hystyried.

**Erthyg 18 –** Mae'r ddau riant yn rhannu'r cyfrifoldeb am fagu eu plant, a dylent bob tro ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn.

**Erthyg 19 –** Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael y gofal priodol, a'u hamddiffyn rhag trais, cam-drin ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt.

**Erthyg 21 –** Pan fo plant yn cael yn cael eu mabwysiadu, yr hyn sydd orau iddyn nhw ddylai fod yr ystyriaeth gyntaf.

